# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd) (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Democratiaeth<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Gweddarlledu (CH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Douglas Fowlie (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Aled M. Jones (am ran o'r cyfarfod), Derek Owen, Dylan Rees (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Sgriwtini (EA). |

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni ddaeth yr un datganiad o ddiddordeb i law.

**2 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim i'w adrodd.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau a ganlyn, i'w cadarnhau –

- 28 Tachwedd 2023
- 12 Rhagfyr 2023

**Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol fel rhai cywir –**

- **28 Tachwedd, 2023**
- **12 Rhagfyr, 2023**

## 4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i’w gadarnhau adroddiad y Pennaeth Democratiaeth yn ymgorffori Rhaglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod o Chwefror i Fedi 2024.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth wybod i’r Pwyllgor Gwaith am y sefyllfa bresennol ynghylch newidiadau i’r Blaen Raglen Waith a nodwyd yr isod–

- Eitem 3 (Rheoli'r Trysorlys 2023/24 – adolygiad chwe mis), eitem 4 (Strategaeth Gyfalaf) ac eitem 5 (Ffïoedd a Thaliadau 2024/25) yn eitemau newydd i gyfarfod 20 Chwefror 2024 o'r Pwyllgor Gwaith.
- Eitem 10 (Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-25) yn eitem newydd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024 gydag eitem 17 cysylltiedig (Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 203/24) yn dod yn benderfyniad dirprwyedig gan yr Aelod Portffolio i’w gyhoeddi ym mis Mawrth 2024.
- Eitem 21 (Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-2029) yn eitem newydd i gyfarfod 19 Mawrth 2024 o'r Pwyllgor Gwaith.
- Eitemau 32-36 (Monitro Perfformiad a'r Gyllideb) yn eitemau newydd i gyfarfod mis Medi 2024 o'r Pwyllgor Gwaith.
- Cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Gwaith wedi'i drefnu ar gyfer 29 Chwefror, 2024 i ystyried cynigion terfynol y Gyllideb ddrafft am 2024/25.

**Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi’i diweddaru am y cyfnod Chwefror i Fedi 2024 gyda’r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.**

## 5 CYLLDEB REFENIW DDRAFFT 2024/25

Cyflwynwyd i sylw’r Pwyllgor Gwaith adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori cynigion drafft cychwynnol y Gyllideb Refeniw am 2024/25.

Cyflwynodd y Cynghorydd Robin Williams, y Dirprwy Arweinydd a’r Aelod Portffolio Cyllid, yr adroddiad, gan ddweud bod setliad dros dro Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd o £169.8m yn lefel gyffredinol y cyllid i Gymru, sy’n cyfateb i gynnydd o 3.1% mewn arian parod. Mae’r setliad drafft wedi arwain at gynnydd o 2.5% i Ynys Môn (0.6% yn is na chyfartaledd Cymru a’r 17eg cynnydd uchaf o’r 22 awdurdod) sydd, ar ôl i’r prif newidiadau cyllidebol gael eu hystyried, yn gadael diffyg ariannu o £14.391m cyn unrhyw newid yn Nhreth y Cyngor. Byddai pontio'r bwlch hwn drwy Dreth y Cyngor yn unig yn golygu codi Treth y Cyngor 30%, sy'n annerbyniol ac afrealistig ym marn y Pwyllgor Gwaith. Mae'r Pwyllgor Gwaith, felly, yn cynnig gwneud iawn am y diffyg trwy gyfuniad o arbedion yn y gyllideb o £4.773m (cyllid i ysgolion 2.5% yn is na chwyddiant, gostyngiadau yn y gweithlu, arbedion eraill yn y gyllideb, yn unol â Thabl 4 ac Atodiad 3 yr adroddiad a defnyddio Premiwm Treth y Cyngor i gefnogi costau gwasanaeth), defnyddio £4.425m o gronfeydd wrth gefn (£1.6m o’r Balansau Cyffredinol a £2.825m o’r Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd) a chynnydd o 9.78% yn Nhreth y Cyngor ynghyd ag 1.12% ychwanegol i ariannu’r cynnydd yn Ardoll y Gwasanaeth Tân (gan nodi y gallai hyn newid yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf) gan wneud cyfanswm cynnydd o 10.9%. Byddai hyn yn mynd â thâl Band D (ac eithrio praeseptau’r Heddlu a Chynghorau Tref/Cymuned) i £1,592.37, cynnydd o £156.51 neu £3.01 yr wythnos.

Er pwysleisio nad oedd lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfforddus ag o, cyfeiriodd y Cynghorydd Robin Williams at y cyd-destun ariannol anodd a'r hinsawdd ariannol ansicr sydd wedi gwneud paratoi'r gyllideb refeniw

dros dro 2024/25 yn dasg heriol. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor ddarparu cyllideb fantoledig ac, er gwaethaf y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor, sydd ar lefel debyg i gynnydd dangosol gan awdurdodau eraill, mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau sy'n codi'r dreth isaf yng Nghymru, wedi iddo reoli arian yn ddarbodus yn y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn wedi cryfhau ei sefyllfa ariannol ac yn ei helpu i ymdrin yn y tymor byr â'r heriau y mae'n eu hwynebu. Os caiff cynigion y Gyllideb ddrafft eu cymeradwyo, byddir yn ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch am bythefnos.

Manteisiodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar y cyfle i egluro'r broses o osod y gyllideb a'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor o ran pennu cyllideb fantoledig, sy'n ofyn cyfreithiol, a thynnodd sylw at y terfynau a'r cyfyngiadau ar y ffynonellau cyllid sydd ar gael i'r Cyngor. Daw'r rhan fwyaf o gyllid y Cyngor gan Lywodraeth Cymru ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw, y gall y Cyngor ei wario fel y mae'n dymuno i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Caiff y grant ei ddosbarthu yn ôl fformiwla ariannu sy'n seiliedig ar setiau data amrywiol, gan gynnwys poblogaeth, nifer y bobl sy'n derbyn budd-daliadau a disgyblion ysgol ac ati, sy'n pennu faint o gyllid y mae cyngor yn ei dderbyn. Mae cyfran 2024/25 Ynys Môn o'r cyllid wedi cynyddu 2.5%, sy'n sylweddol is na chyfradd chwyddiant. Nid yw, chwaith, yn cwrdd â'r costau uwch o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y flwyddyn i ddod, o ystyried hefyd y galw cynyddol am wasanaethau megis plant a gofal cymdeithasol a digartrefedd oedolion wrth i fwy o bobl ddefnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae llawer o'r costau sy'n wynebu'r Cyngor, gan gynnwys tâl athrawon, tâl staff nad ydynt yn addysgu, pensiynau, ynni, y Cyflog Byw Cenedlaethol, Ardoll y Gwasanaeth Tân ac ati, y tu hwnt i'w reolaeth ac, er bod y gyllideb yn cynnwys ffioedd a thaliadau, mae cyfyngiadau ar faint y gellir cynyddu'r rhain, gyda chap ar rai codiadau mewn ffioedd. Yr unig ffynonellau ariannu eraill sydd ar gael i'r Cyngor yw'r arian sydd ganddo wrth gefn a Threth y Cyngor. Ni all y Cyngor ddechrau cyfrifo'r swm y mae angen iddo'i gynhyrchu o Dreth y Cyngor nes ei fod yn gwybod faint o gyllid y bydd yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru, rhywbeth na chafodd ei gyhoeddi tan 20 Rhagfyr, 2023. Fel yn 2023/24, mae cynigion y gyllideb am 2024/25 yn cynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn y Cyngor i helpu i gwrdd â'r diffyg cyllid ac ynghyd ag arbedion cyllidebol, gyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl. Er y bydd y dull hwn yn helpu'r Cyngor i osod cyllideb gytbwys am 2024/25, nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hir ac nid yw'n mynd i'r afael â'r mater sylfaenol o ran cyllid digonol i allu darparu gwasanaethau yn unol â chostau a galw. Mae defnyddio arian sydd gan y Cyngor wrth gefn i wneud iawn am y diffyg yn y gyllideb, hefyd, yn gwanhau gwytnwch ariannol y Cyngor a'i allu i ymdrin â heriau ariannol yn y dyfodol, yn enwedig gan fod blwyddyn ariannol 2025/26 yn debygol o fod yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol, o ran cost ariannu Llywodraeth Cymru, a'r dewisiadau a'r penderfyniadau y bydd yn rhaid eu gwneud o ganlyniad i hynny er mwyn galluogi'r Cyngor i fantoli ei gyllideb ac osgoi mynd yn fethdalwr.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth grynodeb o ymateb y Pwyllgorau Craffu i gynigion dros dro Cyllideb 2024/25 a'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 16 Ionawr 2024. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor, yn dilyn trafodaeth, wedi cymeradwyo'r cynigion cyllidebol oedd yn cynnwys cyllideb ddrafft gychwynnol o £184.219m, gostyngiadau yn y gyllideb o £4.773m, defnyddio £4.425m o gronfeydd wrth gefn, cynnydd yn y premiwm ail gartrefi o 75% i 100% a chynnydd o 10.9% yn Nhreth y Cyngor oedd yn cynnwys cynnydd o 1.12% i dalu Ardoll y Gwasanaeth Tân.

Cydnabu'r Pwyllgor Gwaith fod drafftio Cyllideb 2024/25 wedi bod yn dasg hynod heriol gyda graddfa'r diffyg ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn llawer mwy na'r hyn a brofwyd yn ystod y cyfnod cychwynnol o galedi, gyda phenderfyniadau anodd yn gorfod cael eu gwneud ynghylch lleihau gwasanaethau a Threth y Cyngor. Disgrifiodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yr heriau a wynebir gan eu meysydd portffolio unigol ac, er bod pwysau yn y maes gofal cymdeithasol oedolion a phlant o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio, galw cynyddol ac anghenion mwy cymhleth yn hysbys i bawb, pwysleisiwyd, hefyd, effaith llai o

gyllid, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch cyllid grant ar wasanaethau anstatudol, megis Hamdden a werthfawrogir gan drigolion Ynys Môn, nid yn unig i chwaraeon ond er budd iechyd a lles. Cyfeiriodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith at y cynigion fel cynnyrch trafodaeth hir dros fisoedd lawer a phwysleisiwyd nad oeddent yn cael eu cyflwyno ar chwarae bach. Ystyrir mai'r cyfuniad o ostyngiadau yn y gyllideb, defnyddio cronfeydd wrth gefn a chynnydd yn Nhreth y Cyngor yw'r ateb mwyaf rhesymol o ran lleihau'r effaith a diogelu gwasanaethau i'r rhai mwyaf bregus. Derbyniodd Aelodau'r Pwyllgor Gwaith nad yw'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy a holwyd y Swyddogion ynghylch y risgiau i'r Cyngor o allu parhau i gynnal perfformiad a rhoi gwasanaethau i'r un lefel ac ansawdd os na chynyddir cyllidebau yn unol â hynny.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod cynghorau, os nad y sector cyhoeddus ehangach, yn wynebu argyfwng ariannu a phwysleisiodd yr effaith y mae penderfyniadau cyllidebol y Cyngor yn ei chael ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus, megis y Bwrdd Iechyd a'r Heddlu. Er bod llawer o'r gwasanaethau statudol y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu darparu mewn perthynas â gofal cymdeithasol a digartrefedd plant ac oedolion yn cael eu llywio gan alw, rhaid i'r Cyngor ymateb iddo waeth beth fo'r gyllideb, Mae gwasanaethau eraill yn ataliol eu natur ac yn helpu i leihau'r pwysau ar iechyd a phlismona. Dyma'r gwasanaethau sydd mewn perygl oherwydd toriadau yn y gyllideb neu ostyngiadau mewn cyllid grant, sy'n golygu y bydd y pwysau'n cael eu trosglwyddo i feysydd eraill yn y sector cyhoeddus gyda mwy o bobl yn cyrraedd pwynt argyfwng yn gynt. Mae'r Cyngor yn darparu ystod o wasanaethau anstatudol o ganolfannau hamdden i gyfleusterau cyhoeddus a datblygu economaidd, gwasanaethau sy'n cael effaith ar ansawdd bywyd y mae gan y bobl hynny, nad oes ganddynt ofynion addysg neu ofal cymdeithasol, ddisgwyliadau ohonynt fel Trethdalwyr a chyfranwyr. Er bod yn rhaid rheoli'r risg i'r gwasanaethau hyn yn 2024/25, yr hyn sy'n bwysig yn 2025/26 yw i ba raddau y gall y Cyngor gydymffurfio â gofynion statudol wrth ddarparu ei wasanaethau. Os bydd y bwlch cyllido'n parhau neu'n cynyddu yna bydd angen i Lywodraeth Cymru a rheoleiddwyr ailfeddwl am y trothwyon statudol neu bydd cynghorau'n methu'r rheini gan greu risg i'r boblogaeth hŷn a'r rhai sy'n ddibynnol ar wasanaethau'r Cyngor. Mae gostyngiadau yn y gyllideb, hefyd, yn cael effaith ar forâl a lles staff, yn ogystal ag ar safon y ddarpariaeth os bydd nifer y gweithlu'n lleihau. Mae penderfyniadau i gynyddu cyflogau a phensiynau, heb roi cyllid ychwanegol i gynghorau i ariannu'r codiadau hynny, yn golygu bod llai o staff ar gyflogau a phensiynau gwell a thimau llai i ddarparu gwasanaethau.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig gychwynnol ar gyfer 2024/25 £184.219m.**
- **Cymeradwyo cynnydd arfaethedig o 9.78% yn y Dreth Gyngor, ynghyd â 1.12% i gwrdd ag Ardoll y GwasanaethTân, sef cyfanswm o 10.9% gan olygu bod y gost i eiddo Band D yn £1,592.37.**
- **Cynnig yn ffurfiol bod y premiwm ar ail gartrefi'n codi o 75% i 100%.**
- **Bod £4.425m yn cael ei ryddhau o falansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn clutnodedig er mwyn cydbwyso cyllideb refeniw 2024/25.**

## 6 GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DI-BRESWYL YN Y GYMUNED - FFIOEDD A THALIADAU 2024/25

Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod cyfradd ffïoedd a thaliadau gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned am 2024/25.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, oedd yn nodi'r ffïoedd a'r taliadau arfaethedig am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned am flwyddyn ariannol 2024/25, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n arferol adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau cartref yn flynyddol i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau pensiwn a budd-daliadau.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y cyd-destun ar gyfer pob categori o ffïoedd a thaliadau ac esboniodd y rhesymeg dros lefel y ffïoedd a gynigiwyd ym mhob achos.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol -**

- **Codi'r uchafswm a ganiateir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.**
- **Y taliadau ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellir yn Nhabl A yr adroddiad:**

  **Haen 1 – pawb yn talu £75.14 y chwarter**
  **Haen 2 – pawb yn talu 149.63 y chwarter**

- **Y taliadau Teleofal blynyddol fel yr amlinellir yn Nhabl B:**

  **Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £140.00**
  **Gwasanaethau'n unig £90.00**
  **Costau gosod unwaith ac am byth £56.00**

- **Cyfradd o £15.95 yr awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**

- **Gweithredu tâl o £17.00 yr awr ar gyfer Micro Ofalwyr.**

- **Cadw'r taliad o £10.00 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodynnau Glas a darparu bathodynnau newydd fel yr amlnellwyd.**

- **Bod y ffi ar gyfer prynu gwasanaethu gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol yn cynyddu o 6.7% i £44.33 y dydd.**

- **Bod ffioedd Gofal Cartref yn cynyddu o £1.72 yr awr i gydymffurfio â deddfwriaeth newydd.**

- **Taliadau am Brydau mewn Gwasanaethau Dydd fel yr amlinellir yn Nhabl C:**

  **Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag anableddau dysgu) - £7.65**
  **Byrbryd ganol dydd mewn Gwasanaethau Dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - £3.25**
  **Lluniaeth arall (te/coffi/teisen) mewn Gwasanaethau Dydd - £1.80**

## 7 FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod y gyfradd ar gyfer ffïoedd cartrefi gofal y sector annibynnol am 2024/25, yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion oedd yn nodi'r ffïoedd arfaethedig ar gyfer gofal Preswyl, gofal Preswyl yr Henoed Bregus eu Meddwl, gofal Nyrsio a gofal Nyrsio Henoed Bregus eu Meddwl, am y flwyddyn ariannol 2024/25. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol adolygu ffïoedd cartrefi gofal y sector annibynnol yn flynyddol i gyd-fynd â newidiadau'r Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod angen i'r Cyngor, wrth osod lefelau ffïoedd i gartrefi gofal y sector annibynnol, ddangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gost y ddarpariaeth wrth bennu ffïoedd gofal safonol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd trwy ddefnyddio Methodoleg Ffïoedd Ranbarthol yn feincnod. Mae'r model hwn wedi'i ddefnyddio'n feincnod am 2024/25 ac mae'r pecyn cymorth methodoleg ranbarthol wedi'i addasu i gynnwys atodiad marchnad ar gyfer darpariaeth yr Henoed Bregus eu Meddwl eto eleni. Ar hyn o bryd nid oes cadarnhad y bydd pob awdurdod yng Ngogledd Cymru'n defnyddio'r fethodoleg ranbarthol yn sail i osod eu ffïoedd am 2024/25. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chymheiriaid y Cyngor yn y rhanbarth i sicrhau bod ffïoedd Ynys Môn yn gymaradwy. O ystyried amgylchiadau lleol, argaeledd y ddarpariaeth, pwysau galw yn ogystal â'r fformiwla ranbarthol, mae Ynys Môn yn cynnig cynyddu ei ffïoedd 8.8% am 2024/25 i gydnabod y pwysau ariannol a wynebir gan ddarparwyr. Mae hyn yn fwy na'r codiadau chwyddiant a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg ranbarthol ac mae ymhell uwchlaw'r cynnydd o 2.5% yn setliad y Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Mae ffïoedd arfaethedig Ynys Môn am 2024/25 wedi'u nodi yn Nhabl 2 o'r adroddiad. Os caiff y cynnydd o 8.8% ei gymeradwyo, bydd yn berthnasol i gartrefi sy'n derbyn cyfraddau safonol y Cyngor. Gofynnir i unrhyw un sy'n derbyn ffioedd uwch na'r gyfradd ddangosol ar hyn o bryd rannu gwybodaeth ariannol a byddir yn ystyried codiad ariannol. Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr ynghylch ffioedd ac, os gellir dangos nad yw'r ffi a osodwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol, bydd yr Awdurdod yn ystyried eithriadau i'r cyfraddau ffioedd, yn unol â'r broses a amlinellir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd fel a ganlyn –**

  **Gofal Preswyl (Oedolion) - £774.47 yr wythnos**
  **Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) - £865.46 yr wythnos**
  **Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £851.81 yr wythnos**
  **Gofal Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £1,005.03 yr wythnos**

- **Awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i edrych are eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth(Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion o'r cyllidebau cyfredol.**

## 8 MODERNEIDDIO A THRAWSNEWID GWEITHGAREDDAU DYDD YN ARDAL CAERGYBI

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gynnig i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau dydd i oedolion ag anableddau dysgu yn ardal Caergybi.

Y rheswm am yr adroddiad oedd er mwyn ymateb i ddyheadau defnyddwyr gwasanaeth a chynnig profiad gwell a mwy amrywiol a gwireddu gweledigaeth y gwasanaethau Oedolion bod cymaint o weithgareddau dydd â phosibl yn cael eu darparu o leoliadau cymunedol, gan roi cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu fynd i weithgareddau prif ffrwd ac integreiddio i fywyd bob dydd a gweithgaredd eu cymunedau. Holwyd defnyddwyr gweithgareddau dydd i ganfod eu barn am weithgareddau a ddarperir o leoliadau cymunedol ym mis Awst a mis Medi 2023 a cheir croestoriad o ymatebion i'r ymarfer yn Atodiad 1 yr adroddiad. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol gweithgareddau dydd yng Nghanolfan Morswyn yng Nghaergybi rhwng 23 Hydref a 1 Rhagfyr 2023 a cheir crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad 2 i'r adroddiad.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, gan ddweud y byddai gwireddu'r weledigaeth hon yn fodd i bobl ag anableddau dysgu ddewis lle a phryd y dymunant fynd am weithgareddau. Disgrifiodd ei ymgysylltiad ei hun â phobl ag anableddau dysgu sydd, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi dangos eu bod yn glir ynghylch yr hyn y maent yn ei hoffi ac yn ei fwynhau a'r hyn sydd ei eisiau arnynt o ran profiadau, bywyd llawnach, a mwy o reolaeth dros yr hyn y maent yn ei wneud a nhw sy'n llywio'r newidiadau. Cydnabyddir bod gan unigolion anghenion gwahanol ac y bydd angen mwy o gefnogaeth ar rai unigolion nag ar eraill. Bydd y Gwasanaeth yn edrych ar gefnogaeth sy'n ymateb i anghenion unigolion.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod gweithgareddau dydd i bobl ag anableddau dysgu, yn draddodiadol, wedi'u darparu o adeilad dynodedig. Mae gan y Cyngor bedwar safle penodol sy'n darparu gweithgareddau ar gyfer tua 110 o bobl, gan gynnwys Canolfan Ddydd Morswyn yng Nghaergybi. Er bod mynd i'r canolfannau yn ymateb i anghenion nifer o bobl ac yn cadw pobl yn ddiogel, mae'r model yn canolbwyntio ar fynd i leoliad a chyflawni gweithgareddau ffurfiol a all gyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i unigolion a chyfyngu ar eu rheolaeth bersonol dros eu bywydau eu hunain. Gan mai ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n unig y mae'r canolfannau'n darparu, nid ydynt bob amser yn hyrwyddo'r nod o wella hyder ac annibyniaeth pobl ag anableddau dysgu nac yn rhoi cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu integreiddio i fywyd bob dydd eu cymunedau. Yn ardal Caergybi mae'r Adran wedi edrych ar ddull amgen o ddiwallu anghenion defnyddwyr, lle darperir gweithgareddau dydd o adeiladau/lleoliadau cymunedol. Roedd yr ymateb wedi bod yn gadarnhaol fel y tystiwyd gan yr ymatebion o'r ymgysylltu a'r ymgynghoriad ffurfiol. Lle mynegwyd pryder ynghylch cefnogi pobl ag anghenion cymhleth yn y gymuned bydd, y Gwasanaeth yn gweithio gyda'r unigolion hyn i nodi'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion.

Y cynnig yw rhoi'r gorau i ddefnyddio Canolfan Ddydd Morswyn yng Nghaergybi. Cyn y pandemig roedd y ganolfan yn darparu gweithgareddau ar gyfer tua 20 o unigolion bob dydd. Mewn ymateb i heriau cyfyngiadau cysylltiedig â Covid-19, dechreuodd y Gwasanaeth Oedolion ddefnyddio adeiladau cymunedol yn nhref Caergybi i gynnal gweithgareddau dydd ac mae'r dull hwn wedi bod yn boblogaidd ac wedi arwain at lai o bobl yn mynd i Ganolfan Ddydd Morswyn. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r arbedion ariannol o roi'r gorau i ddefnyddio canolfan Morswyn, sy'n cynnwys £11,500 o arbedion refeniw a £103,000 o gostau cynnal a chadw hanfodol dros y blynyddoedd nesaf. Nid oes disgwyl gwireddu arbedion yn y gyllideb staffio gan y bydd staff yn trosglwyddo i weithio yn y gymuned neu mewn canolfannau eraill.

Rhoddodd y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, ymateb Sgriwtini i'r cynigion a chyfeiriodd at y materion a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2024 wrth ystyried y mater. Cadarnhaodd gefnogaeth

y Pwyllgor i’r cynigion gyda’r Pwyllgor hefyd yn gofyn i’r Gwasanaethau Oedolion drefnu i aelodau etholedig ymweld â gwasanaethau awdurdodau lleol sy’n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu.

Croesawodd y Pwyllgor Gwaith y cynigion yn rhai sy'n galluogi oedolion ag anableddau dysgu i fyw bywyd mwy annibynnol a chyffredin, gyda mwy o gyfleoedd i gymryd rhan a chael eu cynnwys yn eu cymunedau. Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, ar ôl darllen yr adroddiad a chlywed adroddiad yr Aelod Portffolio dros Wasanaethau Oedolion am ei sgyrsiau gyda phobl ag anableddau dysgu am eu dyheadau a’u dymuniadau, roedd yn gwbl gefnogol i'r datblygiad fel un a fydd yn agor drysau i brofiadau a chyfleoedd newydd i bobl ag anableddau dysgu a'r staff sy'n eu cefnogi er y bu ganddo amheuon yn y dechrau ynghylch cau Canolfan Ddydd Morswyn, oedd yn yn ei ward. Gan gydnabod bod gweithredu'r cynigion yn broses dros gyfnod o amser, roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn awyddus i sicrhau y rhoddir ar waith fesurau trosiannol a chefnogaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth a hefyd sicrwydd bod y cyfleusterau cymunedol yn ddigonol i ddiwallu anghenion unigol. Cynigiwyd a derbyniwyd adlewyrchu hyn yng ngeiriad y penderfyniad.

**Penderfynwyd cymeradwyo argymhelliad yr adroddiad fel a ganlyn –**

**Integreiddio defnyddwyr i fod yn fwy o ran o’r gymuned ac ymateb i ddyheadau pobl sy’n mynychu gweithgareddau er mwyn darparu allbynnau gwell. Parhau i drawsnewid a moderneiddio’r ffordd o ddarparu Gweithgareddau Dydd gyda’r pwyslais ar ddefnyddio adeiladau cymunedol. Gan fod y defnydd o Morswyn wedi lleihau, dirwyn y gwasanaeth presennol i ben. Datgan yr eiddo yn weddill i anghenion gan wahodd datganiad o ddiddordeb gan adrannau eraill. Os na fydd defnydd, gwaredu’r eiddo a throsglwyddo’r dderbynneb i’r Adran Oedolion. Sicrhau bod mesurau trosiannol i ddefnyddwyr a sicrhau bod addasiad trosiannol o’r gwasanaeth i ddefnyddwyr. Sicrhau hefyd bod adnoddau/ cyfleusterau yn y gymuned yn addas ac yn cwrdd ag anghenion unigolion.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**